*Rheoliadau drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 316(6)(b) a (7)(f) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

---

# 2011 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## LLYGRU MOROL, CYMRU

## TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

# Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau ) (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwneud apelau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn rhai hysbysiadau a roddir o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009").

Yr hysbysiadau yw—

(a) hysbysiad sy'n amrywio, yn atal dros dro neu'n dirymu trwydded forol, neu'n estyn cyfnod ataliad, a ddyroddir o dan adran 72 o Ddeddf 2009, y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag ef (rheoliadau 2(a) a 3);

(b) hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, hysbysiad stop, neu hysbysiad diogelwch brys, y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod gorfodi mewn perthynas ag ef (rheoliadau 2(b) a 4). Gweler adran 115 o Ddeddf 2009 am ddiffiniadau o'r hysbysiadau hyn .

Mae rheoliad 5 yn pennu pwerau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, a rheoliad 6 yn pennu darpariaeth ar gyfer adennill unrhyw swm sy'n daladwy yn unol â phenderfyniad o'r Tribiwnlys hwnnw.

*Rheoliadau drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 316(6)(b) a (7)(f) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

Mae asesiad llawn o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk.

*Rheoliadau drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 316(6)(b) a (7)(f) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2011 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD,CYMRU

## LLYGRU MOROL, CYMRU

## TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

# Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *6 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 108 o'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 316(6)(b) a (7)(f) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau ) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

---

(**1**) 2009 p. 23.

*Rheoliadau drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 316(6)(b) a (7)(f) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2009" ("the 2009 Act") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy, y mae Gweinidogion Cymru—

(a) yn awdurdod trwyddedu priodol(**1**) ar ei gyfer (a rhaid darllen cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "yr awdurdod trwyddedu" yn unol â hynny);

(b) yn awdurdod gorfodi(**2**) ar ei gyfer (a rhaid darllen cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "yr awdurdod gorfodi" yn unol â hynny).

**Apelau yn erbyn amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol**

**3.**—(1) Caiff person y dyroddwyd hysbysiad iddo o dan adran 72 o Ddeddf 2009 (hysbysiad yn amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol neu estyn cyfnod ataliad) apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf(**3**) yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Atelir hysbysiad, y cyfeirir ato ym mharagraff (1) sy'n amrywio trwydded forol, mewn perthynas â'r amrywiad hwnnw, hyd nes penderfynir yr apêl.

(3) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf atal unrhyw hysbysiad arall y cyfeirir ato ym mharagraff (1), yn gyfan gwbl neu'n rhannol, hyd nes penderfynir yr apêl.

---

(**1**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. Gweler adran 322(1) am ddiffiniad o'r rhanbarth hwnnw.

(**2**) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei chyfer yn rhinwedd adran 114(2) o Ddeddf 2009.

(**3**) Neilltuir apelau i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau) 2010 (O.S. 2010/2655). Pennir y rheolau trefniadol mewn perthynas ag apelau o'r fath yn Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (O.S. 2009/1976).

*Rheoliadau drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 316(6)(b) a (7)(f) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

**Apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau stop a hysbysiadau diogelwch brys**

**4.**—(1) Caiff person y dyroddwyd iddo unrhyw un o'r hysbysiadau ym mharagraff (2) apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Yr hysbysiadau yw—

(a) hysbysiad cydymffurfio;

(b) hysbysiad adfer;

(c) hysbysiad stop;

(ch) hysbysiad diogelwch brys(**1**).

(3) Atelir hysbysiad cydymffurfio ac unrhyw ofyniad mewn unrhyw hysbysiad o'r fath, hyd nes penderfynir apêl yn erbyn yr hysbysiad.

(4) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf atal unrhyw hysbysiad adfer, hysbysiad stop neu hysbysiad diogelwch brys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, hyd nes penderfynir yr apêl.

**Apelau – darpariaethau pellach**

**5.**—(1) Mewn unrhyw apêl, mae'r baich prawf ar yr awdurdod trwyddedu neu'r awdurdod gorfodi, (fel y bo'n briodol), ac—

(a) os yw'r apêl yn ymwneud â'r honiad o gyflawni tramgwydd, rhaid i'r awdurdod brofi y cyflawnwyd y tramgwydd, y tu hwn i amheuaeth resymol, a

(b) mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfynu'r safon o brawf.

(2) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf—

(a) tynnu'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad sydd ynddo yn ôl;

(b) cadarnhau'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad sydd ynddo;

(c) amrywio'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad sydd ynddo;

(ch) cymryd unrhyw gamau y gallai'r awdurdod trwyddedu neu'r awdurdod gorfodi (fel y bo'n briodol) eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a arweiniodd at y gofyniad neu'r hysbysiad;

(d) cyfeirio'r penderfyniad a ddylid cadarnhau'r hysbysiad, neu unrhyw fater arall ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw, yn ôl at yr awdurdod

---

(**1**) Ynglŷn â'r hysbysiadau a grybwyllir ym mharagraff 2 (a) i (d), gweler adrannau 90, 91, 102 a 104 o Ddeddf 2009.

trwyddedu neu'r awdurdod gorfodi (fel y bo'n briodol).

### Adfer symiau taladwy

**6.**—(1) Rhaid talu unrhyw swm sy'n daladwy yn unol â phenderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf o fewn 56 diwrnod ar ôl y penderfyniad hwnnw .

(2) Bydd unrhyw swm o'r fath nas telir o fewn y cyfnod hwnnw —

(a) yn adenilladwy fel dyled sifil;

(b) yn adenilladwy ar orchymyn llys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

*Enw*

Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad